**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2025

Annwyl Gydweithiwr

**ADRODD AR DDYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL**

Ysgrifennais atoch ar 31 Mawrth ynglŷn â dyletswydd partneriaeth gymdeithasol a osodwyd ar eich sefydliad o 1 Ebrill 2024 o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Amgaeir copi o'r llythyr hwnnw er hwylustod.

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'ch sefydliad gydweithio ag undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff i gytuno ar amcanion lles ac ar y penderfyniadau strategol ar gyfer eu cyflawni. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol ichi gyhoeddi Adroddiad Partneriaeth Gymdeithasol blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, sy'n manylu ar y ffordd yr ydych wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd hon dros y 12 mis diwethaf. Rhaid cyflwyno copi o'r adroddiad i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol hefyd.

Hoffwn fynegi fy niolchgarwch i'r sefydliadau hynny sydd eisoes wedi cyhoeddi eu hadroddiadau partneriaeth gymdeithasol ar gyfer 2024-25. Er ei bod yn rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau cyn i'r holl adroddiadau gael eu cyflwyno, mae gweld cymaint o arferion da yn cael eu nodi ledled Cymru wedi gwneud argraff fawr arnaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes terfyn amser pendant ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau. Fodd bynnag, byddai'n help pe bai'r adroddiadau sy'n weddill ar gyfer 2024-25 yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Ionawr. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ystyried yr holl adroddiadau a rhoi cyngor i Weinidogion ar sut mae'r ddyletswydd yn ymsefydlu cyn dechrau'r flwyddyn adrodd newydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'm swyddogion yn cyngorpartneriaethgymdeithasol@llyw.cymru

Yn gywir

**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership